

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
26/02/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Road Safety

Diogelwch ar y Ffyrdd

Q9 Brynle Williams: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for improving road safety in north Wales? OAQ(3)0736(FM)

C9 Brynle Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella diogelwch ar y ffyrdd yn y gogledd? OAQ(3)0736(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Reducing the number of road casualties in all parts of Wales is a priority for the Welsh Assembly Government. Road safety is an intrinsic element of our trunk road management procedures, and we also provide grants to local authorities to reduce the number of road casualties on their roads.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae lleihau nifer y damweiniau ar ffyrdd ledled Cymru yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae diogelwch yn rhan annatod o'n gweithdrefnau rheoli cefnffyrdd ac yr ydym hefyd yn rhoi grantiau i awdurdodau lleol i leihau nifer y damweiniau ar eu ffyrdd.

Community Justice Panels

Panelli Cyfiawnder Cymunedol

Q10 Eleanor Burnham: What representations has the First Minister made regarding the development of community justice panels? OAQ(3)0762(FM)

C10 Eleanor Burnham: Pa sylwadau y mae'r Prif Weinidog wedi'u gwneud ynghylch datblygiad paneli cyfiawnder cymunedol? OAQ(3)0762(FM)

The First Minister: I have not made representations about the development of community justice panels, but I am aware of the work being undertaken by the community justice courts to engage with communities to tackle anti-social behaviour and the crime associated with it.

Y Prif Weinidog: Nid wyf wedi gwneud unrhyw sylwadau am ddatblygu paneli cyfiawnder cymunedol ond yr wyf yn ymwybodol o'r gwaith y mae'r llysoedd cyfiawnder cymunedol yn ei wneud i ymgysylltu â chymunedau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r troseddau sy'n gysylltiedig ag ef.

The State of the Economy

Cyflwr yr Economi

Q11 Nick Ramsay: What assessment has the Welsh Assembly Government made of the state of the economy in Wales? OAQ(3)0745(FM)

C11 Nick Ramsay: Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o gyflwr yr economi yng Nghymru? OAQ(3)0745(FM)

The First Minister: 'One Wales' sets an

Y Prif Weinidog: Mae 'Cymru'n Un' yn

ambition for a strong, enterprising economy. Timely data are available for the labour market. The numbers claiming unemployment benefit are now at their lowest level since February 1975. I am confident that the economy will continue to show resilience in the face of a challenging year ahead.

Improving the Quality of Life

Q12 Gareth Jones: Will the First Minister make a statement on improving the quality of life within rural communities in Wales? OAQ(3)0737(FM)

The First Minister: Improving the quality of life in rural communities and, indeed, in all our communities is a key objective for the Welsh Assembly Government. Our strategic commitment is set out in 'One Wales' and the spatial plan, and will be supported through specific programmes in the rural development plan.

Transport Links

Q13 Kirsty Williams: Does the Welsh Assembly Government have plans to improve east-west transport links? OAQ(3)0738(FM)

The First Minister: Yes. Plans for east-west road links are set out in the trunk road forward programme. In addition, our continued investment in TrawsCambria and rail services will improve east-west public transport links.

People with Physical Impairments

Q14 Andrew R.T. Davies: Will the First Minister make a statement on facilities in South Wales Central for people with physical impairments? OAQ(3)0751(FM)

The First Minister: Our policies recognise issues associated with disability, and the Disability Discrimination Act provides a statutory basis to ensure that public bodies take all the reasonable steps to enable disabled people to access services freely.

nodi uchelgais ar gyfer economi fentrus, gref. Mae data amserol ar gael ar gyfer y farchnad lafur. Mae'r niferoedd sy'n derbyn budd-dâl diweithdra ar ei lefel isaf ers mis Chwefror 1975. Yr wyf yn hyderus y bydd yr economi yn parhau i fod yn wydn wrth wynebu'r flwyddyn sydd i ddod, a fydd yn llawn her.

Gwella Ansawdd Bywyd

C12 Gareth Jones: A fydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad am wella ansawdd bywyd yng nghymunedau gwledig Cymru? OAQ(3)0737(FM)

Y Prif Weinidog: Mae gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau gwledig ac ym mhob un o'n cymunedau yn un o brif amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ein hymrwymiad strategol i'w weld yn 'Cymru'n Un' a'r cynllun gofodol, a byddwn yn parhau i gefnogi ein hardaloedd gwledig drwy raglenni penodol fel y cynllun datblygu gwledig.

Cysylltiadau Trafnidiaeth

C13 Kirsty Williams: A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gynlluniau i wella cysylltiadau trafndiaeth rhwng y dwyrain a'r gorllewin? OAQ(3)0738(FM)

Y Prif Weinidog: Oes. Mae'r cynlluniau ar gyfer cysylltiadau ffordd rhwng y dwyrain a'r gorllewin wedi'u nodi yn y flenraglen cefnffyrdd. Bydd ein buddsoddiad parhaus yng ngwasanaethau'r TrawsCambria a'r rheilffyrdd hefyd yn gwella'r cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus rhwng y dwyrain a'r gorllewin.

Pobl â Nam Corfforol

C14 Andrew R.T. Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfleusterau yng Nghanol De Cymru ar gyfer pobl â nam corfforol? OAQ(3)0751(FM)

Y Prif Weinidog: Mae ein polisiau yn cydnabod materion sy'n gysylltiedig ag anabled, ac mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabled yn darparu sail statudol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cymryd pob cam rhesymol i'w gwneud yn bosibl i bobl

anabl ei chael yn hawdd defnyddio gwasanaethau.

Helping Small Businesses

Q15 Michael German: What is the Welsh Assembly Government doing to help small businesses to win public contracts? OAQ(3)0740(FM)

The First Minister: The Department for Economy and Transport website, [sell2wales](http://sell2wales.gov.uk), is used by the majority of public sector organisations to publish their contract opportunities, worth £1.7 billion in 2007 alone, and companies can receive direct support with tendering through the Assembly Government's support for business.

Helpu Busnesau bach

C15 Michael German: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i helpu busnesau bach i ennill contractau cyhoeddus? OAQ(3)0740(FM)

Y Prif Weinidog: Mae'r mwyafrif o sefydliadau'r sector cyhoeddus yn defnyddio gwefan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, [gwerthwchigymru](http://gwerthwchigymru.gov.uk), i gyhoeddi eu cyfleoedd o ran contractau, a oedd yn werth £1.7 biliwn yn 2007 yn unig, a gall cwmnïau gael cymorth uniongyrchol gyda gwaith tendro drwy gymorth busnes Llywodraeth y Cynulliad.